Pam fod angen Cynllun Nwyddau Cyhoeddus ar Gymru

Mai 2019

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link

Nature Friendly Farming Network



Papur gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur

Eleanor Bentall (rspb-images.com)

Ein gweledigaeth am Gymru yw gwlad sy'n rheoli ei thir yn gynaliadwy, drwy gyfrwng dulliau sydd o fudd i bobl, yr amgylchedd a byd natur, yn ogystal â dyfodol economaidd i reolwyr tir, wrth gydnabod y cysylltiadau uniongyrchol rhwng amgylchedd iach a chymdeithas iach.

Dydy'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) ddim wedi sicrhau dyfodol cynaliadwy i dir Cymru na rheolwyr tir. Ni lwyddodd y PAC i achub ein bywyd gwyllt. Mae prinhad adar ffermdir a rhywogaethau eraill yn parhau, ac mae ansawdd ein pridd a'n dŵr yn gwaethygu. Does dim ecosystem yng Nghymru sy'n wydn. Ni fydd y trefniadau presennol ar gyfer cefnogaeth i ffermydd yn helpu Cymru i wireddu amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol na'r Ddeddf Amgylchedd (Cymru).

Yn adroddiad Sefyllfa Byd Natur cafwyd, yng Nghymru, bod un o bob 14 rhywogaeth yn prysur ddiflannu, gyda 57% o blanhigion gwyllt, 60% o loÿnnod byw, a 40% o adar yn prinhau.

Wrth i ni wynebu colledion trychinebus ym myd natur a heriau anferth i fynd i'r afael â newid hinsawdd, nid ydy parhau i weithredu fel yr ydym yn opsiwn.

Dull newydd o fynd i'r afael â materion


Credwn bod hwn yn gyfle unwaith mewn oes i ddatblygu polisi rheoli tir a fydd yn adfer ecosystemau gwydn a chefnogi economi wledig ffyniannus.

Ein dymuniad yw i'r polisi hwnnw ddarparu incwm sicr i gefnogi ffermwyr i ddarparu nwyddau cyhoeddus.

Yn gyfochrog â hyn, byddai ffermwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg am ddarparu ansawdd y bwyd sydd ei angen arnom. Dylai hyn ddigwydd drwy ymarferion prynu teg ledled y gadwyn gyflenwi gyfan a chod ymddygiad statudol a orfodir mewn dull priodol.

Beth yw nwyddau cyhoeddus?

Nwyddau cyhoeddus yw canlyniadau a buddion rheolaeth tir na ellir eu darparu gan farchnadoedd masnachol.



Yn cynnwys ansawdd awyr, pridd a dŵr, bioamrywiaeth, tirlun, mynediad cyhoeddus, lliniaru risg llifogydd a lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Credwn y bydd pob rheolwr tir yn gallu darparu nwyddau cyhoeddus, ac y bydd modd darparu rhai nwyddau cyhoeddus ochr yn ochr â gweithgareddau masnachol, os nad o ganlyniad i weithgareddau masnachol.

Er enghraifft, fe all rhai mathau o bori fod yn fuddiol i fywyd gwyllt ac fe all cynnydd yn y nifer o wrychoedd a choed ar ffermydd sicrhau buddion lu (lloches, dal a storio carbon, cynefin) o'u plannu yn y mannau priodol.

Pwy ddylai fod yn gymwys i elwa o'r cynllun?

Mae graddfa'r her i adfer ein hamgylchedd yn enfawr.

Dengys ymchwil bod angen i ni fuddsoddi lleiafswm o £220 miliwn yn ein hamgylchedd bob blwyddyn os ydym am lwyddo i ateb amcanion y Ddeddf Amgylchedd a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Oherwydd hyn, credwn y dylai unrhyw reolwr tir anstatudol sy'n gweithio i reoli ei dir er mwyn darparu nwyddau cyhoeddus y gallwn eu hadnabod fod yn gymwys i elwa o'r cynllun hwn.

Rydym yn deall y pryderon y gall hyn greu cystadleuaeth am arian cyfyngedig, ond gan **fod 80% o Gymru'n cael ei ffermio, bydd y rhan fwyaf o'r arian o gynllun nwyddau cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn ffermio.**

Pa gefnogaeth sydd ei angen ar ffermwyr a rheolwyr tir eraill i wneud y newid hwn?

Mae'r Cynllun Taliadau Sylfaenol wedi darparu incwm sefydlog a byddai'n anodd i rai ffermwyr wneud hebddo. Mae angen amlwg am newid, ond dylai'r cyfnod trawsnewid fod mor esmwyth â phosib i alluogi ffermwyr i addasu.

Mae arnom angen:

1. **Cyfnod newid penodol**
   I ddarparu hyder ac eglurdeb i reolwyr tir, dylid cadarnhau cyfnod trawsnewid o 5 – 7 mlynedd, i sefydlu maes chwarae gwastad i fasnach ledled y DU ac i barhau'n unol â pholisi Cymreig arall. Dylai amserlenni ar gyfer cwblhau'r newidiadau angenrheidiol a darparu cynlluniau peilot fod yn eglur.
2. **Man cychwyn rheoliadol cryf**
   Erbyn diwedd y cyfnod trawsnewid, dylai pob rheolwr tir fod yn cydymffurfio gyda rheoliadau a gynlluniwyd i warchod yr amgylchedd, ac yn gymwys i gael mynediad i'r cynllun nwyddau cyhoeddus. Os nad yn cydymffurfio rhaid dychwelyd arian cyhoeddus. Fe all Llywodraeth Cymru gefnogi gwelliannau drwy gynnig cymorth ariannol, megis benthyciadau heb log.
3. **Rhaid i bolisïau'r dyfodol fod wedi eu cynllunio'n dda, wedi eu profi, ac yn hawdd eu deall**
   Mae'n hanfodol bod pawb yn deall sut y bydd polisïau rheoli tir presennol ac yn y dyfodol yn cydweithio â'i gilydd. Mae arnom angen gwybod sut i fesur llwyddiant, a sut y bydd cymysgedd heddiw o daliadau uniongyrchol a thaliadau Glastir yn newid i system sengl o daliadau nwyddau cyhoeddus.
4. **Rhaid ail-fuddsoddi nawdd ariannol mewn rheolaeth tir cynaliadwy**
   Rhaid defnyddio unrhyw nawdd ariannol a ryddheir o gyllideb y taliadau uniongyrchol ar gyfer cefnogi'r newid i bolisi rheoli tir cynaliadwy effeithiol. O ystyried yr heriau sy'n wynebu ffermwyr, mae angen i Lywodraeth Cymru helpu i reoli'r newid hwn. Mae angen Cronfa Trawsnewid i fuddsoddi mewn cyngor rheoli busnes, cynllunio dilyniant a chefnogaeth wedi ei thargedu ar gyfer ymgeiswyr newydd.

Rhoddwyd y papur hwn at ei gilydd gan y Cyswllt, mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur.

Mae'r **Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur** yn uno ffermwyr sy'n teimlo'n angerddol am fywyd gwyllt a ffermio cynaliadwy.

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart , Caerdydd CF10 5FH
@WalesLink
www.waleslink.org

Rhwydwaith o Gyrff Anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt). Ein gweledigaeth yw amgylchedd a chefn gwlad iach a reolir yn gynaliadwy, gyda threftadaeth warchodedig lle bydd pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol yn gallu ffynnu.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Rhif Elusen.1022675)